

Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr 2019

Enw'r Elusen: Cymdeithas Côr Meibion Caerfyrddin

Rhif cofrestredig: 259482

Cyfeiriad: Cyfeiriad yr Ysgrifennydd (Tŷ Hir, Picton Court, Caerfyrddin SA31 3DQ)

Ymddiriedolwyr:

Dai Lewis (Cadeirydd)
Kevin Thomas (Is- Gadeirydd)
Steve Thomas (Trysorydd)
Huw Michael (Ysgrifennydd)

Dogfen Rheolaeth: Y Cyfansoddiad a fabwysiadwyd ar 22/08/2017

Amcanion:

Amcanion y Côr yw hyrwyddo'r ymwybyddiaeth am ganu corawl ymhlith y cyhoedd, a dysgu a pherfformio darnau corawl yn gyhoeddus, tra'n cynorthwyo achosion elusennol.

Gweithgareddau a Chyflawniadau 2019

Rheolaeth

Nid oedd newidiadau i Gyfansoddiad y côr yn ystod 2019

Swyddogion.

Daeth cyfnod llwyddiannus Dewi Jones fel Cadeirydd i ben ym mis Chwerfor 2019, ac etholwyd yr Is-Gadeirydd Dai Lewis (B2) yn Gadeirydd yn ei le. Etholwyd Kevin Thomas (T2) yn Is-Gadeirydd yn y CCB. Doedd dim newidiadau eraill ymhlith swyddogion y Côr yn 2019. Yn anffodus, chafwyd neb i lenwi swydd gwag yr Ysgrifennydd Cofnodion.

Aelodaeth

Ni bu newid yn y tâl aelodaeeth ar gyfer 2019. (£120 y pen)

Ymddiswyddodd dau aelod ar ddechrau'r flwyddyn: Alan Cash Evans (T2), a Ken Morris (B2). Dim ond am ryw 6 mis oedd Alan wedi bod yn aelod. Roedd Ken wedi bod yn aelod ffyddlon o'r côr ers blynyddoedd lawer, ac wedi rhoi gwasanaeth teilwng. Byddwn yn gweld eisiau ei gyfraniad i'r Baswyr.

Ddechrau mis Medi derbyniwyd ymddiswyddiad Andrew Hardwick (B1). Cafwyd sawl blwyddyn o wasanaeth gwerthfawr wrth Andrew i'r côr, gan gynnwys cyd-lunio ein CD cyntaf yn 2015.

Croesawyd lori Jones (T1) a Ieuan Phillips (B1) yn ôl i'r côr ar ôl cyfnod o absenoldeb, a hefyd, braf oedd cael croesawu Richard Evans fel aelod newydd gyda'r baswyr ddechrau'r flwyddyn.

Nifer aelodau'r côr ar ddiwedd 2019 yw 35.

Presenoldeb

Roedd y presenoldeb yn yr Ysgol Gân wythnosol yn weddol gyson rhwng 26 a 30 o aelodau. Yn y perfformiadau roedd ychydig yn llai fel rheol, ond llwyddon i gael 29 ar y llwyfan yn ein cyngerdd blynyddol yn Eglwys Crist.

Cyngherddau

Uchafbwynt y flwyddyn oedd ein Cyngerdd Blynyddol yn Eglwys Crist ar yr 2il o Dachwedd. Ein artistiaid gwadd oedd y Vittari Duo (Nia-Bethan Squirrel (fiolin) ac Alexandra Lucas (ffliwt)), a Chor Merched "Drybrook and District" o Fforest y Ddena. Er gwaethaf y tywydd ofnadwy (eto eleni, fel

y llynedd) daeth nifer gweddol o gefnogwyr i fwynhau'r cyngerdd. Llywydd y noson oedd Mr Gwilym Dyfri Jones, Profost PCYDDS, a roddodd anerchiad byr, pwrpasol, ar ôl yr egwyl, ac a roddodd gyfraniad hael at y Cor.

Cymerwyd rhan hefyd yng Nghyngerdd Dydd y Cofio y Lleng Brydeinig yn Theatr y Lyric ar y 19eg o Hydref ynghyd â thri chor meibion lleol arall (Mynydd Mawr, Dyffryn Tywi a Phorth Tywyn) i wneud un côr mawr ar y llwyfan. Arweinydd y côr y noson honno oedd yr arweinydd corau meibion enwog y Dr Alwyn Humphreys.

Perfformiadau Eraill

Canodd y cor mewn nifer o ddigwyddiadau yn nhref Caerfyrddin i gefnogi Maer y Dref (Emlyn Schiavone (B1) hyd at Mai 2019, a Jeff Thomas (B1), Llywydd y Côr, o fis Mai ymlaen).

Gorymdaith Dydd Gwyl Dewi - Mawrth
Gwasanaeth ddinesig y Maer - Mehefin
Diwrnod Heddwch Ryngwladol - Medi
Troi'r goleuadau Nadolig ymlaen - Tachwedd
Pwyllgor Elusen y Maer- Tachwedd

Canodd y côr yng Nghymanfa Ganu yn y Priordy ddiwdd mis Medi, ac yn yr Ardd Fotaneg Genedlaethol yn eu Ffair Aeaf ym mis Tachwedd.

Yn ogystal, fe ganon ni yng nghinio Cymdeithas Holstein yng Ngwesty'r Strade ym mis Gorffennaf trwy wahoddiad Mr Brian Thomas, Gelli-ddu, Cwmffrwd a gafodd ei wneud yn Llywydd newydd y Gymdeithas dros y Deyrnas Unedig.

Priodasau

Fe ganon mewn tair priodas yn ystod y flwyddyn. Cafwyd derbyniad da i'n canu yn y dair.

Mehefin - Neuadd Brangwyn, Abertawe (Rebecca Stone)
Awst - Clwb y New Dairies, Heol Dŵr (Dorian a Corina Colling)
Rhagfyr - White Hart, Llandeilo (Gruffydd a Mair)

Angladd

Dim un.

Elusennau

Gan fod ochr ariannol y côr yn iach, penderfynodd y Pwyllgor yn 4Q18 i barhau i gyfrannu at elusennau lleol, ond i wneud hynny ddwywaith yn ystod y flwyddyn yn hytrach na bob cwarter.

2Q - Hosbis Tŷ Cymorth - £250

3Q- RABI - cynnal Cymanfa Ganu i'r RABI yn Nant-y-Ci heb godi tâl.

Yn ogystal, fe ganodd y côr yn y digwyddiadau hyn i godi arian at elusennau:

Tenovus - Eglwys Crist (Cyngerdd Nadolig)

Merched y Wawr Plygain - Hafan Glyd (Canolfan Dementia) - a chyfrannu £60 trwu dalu am rhaglenni mynediad.

Cymdeithasol

Taith ti Sain Ffagan mewn bws - Ebrill - a Pei a Stwnsh yng Nghlwb y Cwms i ddilyn.

Pwyllgor y Gwragedd

Dymuna'r Côr ddiolch i Bwyllgor y Gwragedd am eu cefnogaeth; yn enwedig am eu gofal dros wisg y cor a threfniadau bwyd ar gyfer ein Cyngerdd a'n diwrnodau cymdeithasol.

Repertoire

Ychwanegwyd darnau newydd i repertoire y côr yn 2019: Do You Hear the People Sing?; Y Cwm; Unwaith Eto 'Nghymru Annwyl.

Mae rhestr llawn repertoire y côr ar ein gwefan.

Arweinydd a Chyfeilyddes

Dymuna'r Ymddiriedolwyr fynegi eu gwerthfawrogiad am wasanaeth y Parchedig Wyn Maskell a Ms Heather Williams. Rydyn yn ffodus iawn i'w cael.